Llywodraeth Cymru



# Cynllun Ffermio Cynaliadwy-Dadansoddiad o adborth i gynigion amlinellol y cynllun

31 Mai 2023

ADAS

# NODIADAU CYFFREDINOL ADAS

**Rhif Project:** 1022454

**Teitl:** Cynllun Ffermio Cynaliadwy Dadansoddiad o adborth i gynigion amlinellol y cynllun

**Cleient:** Llywodraeth Cymru

**Dyddiad:** 31 Mai 2023

**Swyddfa:** Leeds

**Statws:** Drafft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Awdur** | Joshua Chapman | **Adolygydd technegol** | Dr. Liz Lewis-Reddy |
| Llofnod | | Llofnod | |
| Dyddiad: | 16 Mai 2023 | Dyddiad: | 16 Mai 2023 |


Mae RSK ADAS Ltd (ADAS) wedi paratoi'r adroddiad hwn at ddefnydd y cleient yn unig, gan ddangos sgil a gofal rhesymol, i'r dibenion bwriadedig a nodir yn y cytundeb y cwblhawyd y gwaith hwn oddi tano. Ni all unrhyw barti arall ddibynnu ar yr adroddiad heb gytundeb peneodol y cleient ac ADAS. Ni roddir unrhyw warant arall, wedi'i mynegi neu ei hawgrymu, ynghylch y cyngor proffesiynol a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.

Lle defnyddiwyd unrhyw ddata a ddarparwyd gan y cleient neu o ffynonellau eraill, tybiwyd bod y wybodaeth yn gywir. Ni all ADAS dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am wallau yn y data a ddarparwyd gan barti arall. Mae'r casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar rhagdybiaeth bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i darparu gan y cyrff hynny y gofynnwyd amdani.

Ni cheir copïo na dyblygu unrhyw ran o'r adroddiad hwn heb ganiatâd penodol ADAS a'r parti y'i paratowyd ar ei gyfer.

Lle mae ymchwiliadau maes wedi'i cynnal, mae'r rhain wedi'u cyfyngu i lefel o fanylder sy'n ofynnol i gyflawni amcanion datganedig y gwaith.

Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud yn unol â system rheoli ansawdd RSK ADAS Ltd.

# RHESTR ACRONYMAU

| CYMRAEG | ENGLISH |
|---|---|
| Cynllun Masnachu Allyriadau (CMA) | ETS – Emissions Trading System |
| Cyswllt Ffermio (CFf) | FC – Farming Connect |
| Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (CAAD) | GAEC – Good Agricultural and Environmental Conditions |
| Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol (RhAG) | INNS – Invasive Non-Native Species |
| Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) | KPIs – Key Performance Indicators |
| Cysylltu'r Amgylchedd a Ffermio (CAAF) | LEAF – Linking Environment and Farming |
| Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur (RhFfLlN) | NFFN – Nature Friendly Farming Network |
| Rheoli Llifogydd yn Naturiol (RhLlN) | NFM – Natural Flood Management |
| Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) | NMS – National Minimum Standards |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) | NRW – Natural Resources Wales |
| Ffermwyr a Thyfwyr Organig (FfThO) | OF&G – Organic Farmers and Growers |
| Pobl dros Drin Anifeiliaid yn Foesegol (PDAF) | PETA – People for the Ethical Treatment of Animals |
| Porfa am Oes (PaO) | PfL – Pasture for Life |
| Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) | PRoW – Public Rights of Way |
| Taliadau Gwledig Cymru (TGC) | RPW – Rural Payments Wales |
| Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) | SFS – Sustainable Farming Scheme, also referred to as 'the scheme'. |
| Rheoli Tir yn Gynaliadwy (RhTG) | SLM – Sustainable Land Management |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (LlCD) | WFG – Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015 |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o 100 o Ffurflenni Adborth y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC). Dadansoddwyd data gan ddefnyddio ymagwedd dulliau cymysg, gan roi trosolwg mwy cyflawn o'r ymchwil. Dadansoddwyd data demograffig gan ddefnyddio MS Excel. Dadansoddwyd adborth nad yw'n rhifiadol yn thematig gan ddefnyddio Nvivo. Cafodd ymatebion a anfonwyd mewn fformat heblaw'r ffurflen adborth eu hadolygu a'u crynhoi i ychwanegu sylwedd lle nodwyd bylchau thematig.

Cafwyd ymatebion gan sefydliadau ac elusennau o ystod eang o sectorau, sedd wedi'u lleoli ac yn gweithredu yng Nghymru. Roedd adborth gan unigolion yn dangos bod yr holl ymatebwyr wedi'u lleoli yng Nghymru, gyda thua hanner ohonynt yn ffermwyr.

Cafwyd llawer iawn o adborth gan yr ymatebwyr i amlinelliad y Cyflwyniad i'r cynllun. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch y cyflwyniad, er bod pryderon na fyddai cyfranogwyr y cynllun yn cael cymorth priodol. Darparodd ymatebwyr awgrymiadau ar ofynion cymhwysedd a hyblygrwydd, gan ddadlau dros wella hygyrchedd ar gyfer amrywiaeth ehangach o ffermydd. Gofynnodd ymatebwyr am eglurhad lle'r oeddent yn teimlo bod diffyg gwybodaeth. Y meysydd hyn oedd y camau gweithredu arfaethedig â ffocws amgylcheddol a diffiniadau penodol ar gyfer termau annelwig (e.e., diogelwch bwyd a rheoli tir cynaliadwy).

Canmolwyd Pennod Tri am y strwythur haenog a gyflwynwyd. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r ddeddfwriaeth a fydd yn cyd-fynd â hwy, yn enwedig ynghylch amseriad y cyflwyniad, mewn perthynas â'r CFfC. Gofynnodd yr ymatebwyr am eglurhad ynghylch a fydd eithriadau i'r camau gweithredu cyffredinol. Roedd yr ymholiad hwn yn ymwneud yn benodol ag eithriadau o ran orchudd coed ar gyfer ffermydd bach iawn, neu a yw topograffeg y fferm yn anaddas ar gyfer plannu coed.

Yr oedd gan yr ymatebwyr y mwyaf i'w ddweud am Bennod Pedwar o gynnig y CFfC. Dangosodd yr ymatebwyr eu bod yn gadarnhaol ynghylch ffocws amgylcheddol y cynnig ac integreiddio Cyswllt Ffermio. Fodd bynnag, gofynnwyd am eglurhad ynghylch y gefnogaeth a fyddai'n cael ei chynnig. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi gwell mynediad at gyrsiau hyfforddi a chyngor technegol. Achosodd ariannu'r cynllun bryder ymhlith ymatebwyr gyda rhai'n pryderu y gallai'r camau cyffredinol gymryd cyfran fawr o'r gyllideb. Derbyniodd coetiroedd a chynefinoedd lawer iawn o adborth yn yr adran hon hefyd. Y camau gweithredu arfaethedig mewn perthynas â'r ddau fae hyn oedd y meysydd mwyaf dadleuol o'r cynllun, gyda llawer o ymatebwyr yn cynnig newidiadau i'r camau hyn ac yn cynnal meysydd pryder oedd yn gwrthdaro.

Roedd yr adborth ar y broses CFfC arfaethedig (Pennod Pump y CFfC) yn gadarnhaol ar y cyfan, yn enwedig y cynnig i gefnogi ffermwyr i gydymffurfio. Roedd hyd y cytundeb yn codi rhai pryderon, gyda'r ymatebwyr yn gofyn iddo fod yn fyrrach neu'n hirach yn dibynnu ar eu hanghenion. Awgrymwyd y dylai hyn fod yn fwy hyblyg er mwyn sicrhau y gallai ffermwyr tenant â chontractau tymor byr gymryd rhan yn y cynllun, a hefyd ddarparu ar gyfer cytundebau tymor hwy megis mentrau plannu coed. Roedd lleihau'r gofyniad cwmpas tir o 3ha i 1 ha yn newid poblogaidd a awgrymwyd i ofynion cymhwysedd gan nad yw'r arwynebedd tir gofynnol presennol o 3ha yn cynnwys llawer o fusnesau garddwriaethol. Fodd bynnag, gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o fanylion am yr hyn sy'n gyfystyr â 'ffermwr', a diffiniadau cliriach o weithgarwch amaethyddol.

Roedd llai o sylwadau ar Bennod Chwech, yn ymwneud â'r cynllun trosglwyddo, er bod yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan. Codwyd rhai pryderon ynghylch cyflwyno'r cynllun, a'r treialon a gynhaliwyd cyn hyn. Gofynnodd ymatebwyr eraill i'r cyfnod pontio fod yn fyrrach. Roedd ymatebwyr yn chwilfrydig am gymell ffermwyr i ymuno a pha gymorth byddai ar gael i siaradwyr Cymraeg.

Roedd yr adborth cyffredinol a ddarparwyd gan ymatebwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar ddyluniad y CFfC. Roedd y sylwadau'n eang, er bod y rhai mwyaf cyffredin yn canolbwyntio ar gynwysoldeb a chyllid digonol.

# CYNNWYST


**1 RHAGARWEINIAD ..... 1**

1.1 Cefndir ..... 1

1.2 Amcanion Ymchwil ..... 2

1.3 Methodoleg ..... 2

1.3.1 Prif Adborth y Dadansoddiad ..... 2

1.3.2 Dadansoddiad Thematig ..... 3

1.4 Amlinelliad yr Adroddiad ..... 3

**2 DATA DEMOGRAFFIG ..... 4**

2.1 Data Lefel Sefydliadol ..... 4

2.1.1 Lleoliad Gweithredu Sefydliad ..... 4

2.1.2 Y Sector Sefydliadol ..... 4

2.2 Data Lefel Unigol ..... 5

2.2.1 Sector Ffermio ..... 5

2.2.2 Lleoliad ..... 6

2.2.3 Oed ..... 6

**3 ADBORTH AR BENNOD DAU: CYFLWYNIAD ..... 8**

3.1 Crynodeb Pennod ..... 8

3.2 Rheoli Tir yn Gynaliadwy (RhTG) Amcanion a Chanlyniadau ..... 8

3.3 - Cefnogaeth i Ffermwyr ..... 9

3.4 Sylwadau Gweithred-Benodol ..... 10

3.4.1 Sylwadau'n Berthnasol i Goetir ..... 10

3.4.2 Sylwadau'n Ymwneud â Mynediad Cyhoeddus ..... 10

3.5 Hyblygrwydd Cynyddol ..... 11

3.6 Newidiadau a Awgrymwyd ..... 11

**4 ADBORTH AR BENNOD TRI: STRWYTHUR Y CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY 13**

4.1 Crynodeb o'r Bennod ..... 13

4.2 Strwythur Haenog ..... 13

4.3 Safonau Gofynnol Cenedlaethol ..... 14

4.4 Awdurdodau Lleol ..... 15

4.5 Monitro a Gorfodi ..... 15

4.6 Gweithredoedd Cyffredinol ..... 15

**5 ADBORTH AR BENNOD PEDWAR: FFRAMWAITH A CHYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY ..... 17**

5.1 Crynodeb o’r Bennod ....... 17
5.2 Camau Gweithredu Arfaethedig – Adborth Cyffredinol ....... 17
5.2.1 Camau Gweithredu Arfaethedig - Cadarnhaol ....... 17
5.2.2 Camau Gweithredu Arfaethedig – Pryderon Cyffredin ....... 18
5.2.3 Camau Gweithredu Arfaethedig – Coetir a Chynefin – Adborth Penodol ....... 19
5.3 Monitro ac Adrodd ....... 21
5.4 Darparu Cefnogaeth Ariannol ....... 22
5.5 Darpariaethau Cyngor a Hyfforddiant ....... 23
**6 ADBORTH AR BENNOD PUMP: PROSES Y CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY ....... 24**
6.1 Crynodeb o’r Bennod ....... 24
6.2 Gweinyddu ....... 24
6.3 Monitro, Adrodd a Gwerthuso ....... 25
6.4 Cosbau ....... 25
6.5 Mecanweithiau Talu ....... 25
6.6 Darparu Cyngor a Hyfforddiant ....... 26
6.7 Contractau a Chymhwysedd ....... 26
6.8 Syniadau Cyffredinol ....... 26
**7 ADBORTH AR BENNOD CHWECH: Y CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY: CYNLLUN PONTIO ....... 28**
7.1 Crynodeb o’r bennod ....... 28
7.2 Cyfnod Paratoi a Pheilot ....... 28
7.3 Cyfnod Pontio ....... 28
7.4 Meysydd i’w Hegluro ....... 29
**8 ADBORTH CYFFREDINOL AR GYNNIG CFFC ....... 30**
**9 CASGLIAD ....... 32**
**ATODIAD 1: RHESTR O SEFYDLIADAU A RODDODD ADBORTH ....... 34**
Rhestr o’r holl sefydliadau a roddodd adborth ar y cynnig Cynllun Ffermio Cynaliadwy. 34

## Tablau

Tabl 2.1: Ymatebwyr unigol a sefydliadol. ....... 4
Tabl 2.2: Ymatebwyr sefydliadol: lleoliadau sylfaen a gweithredu ....... 4
Tabl 2.3 Ymatebwyr sefydliadol - sector. ....... 5
Tabl 2.4: Ymatebwyr unigol – galwedigaeth. ....... 5
Tabl 2.5: Ymatebwyr Unigol – sector ffermio. ....... 6
Table 2.6: Ymatebwyr unigol - rhanbarth. ....... 6

Tabl 2.7 Ymatebwyr unigol – oed. 6

## Ffigurau

Ffigur 3.1 Diagram corryn yn dangos y newidiadau a awgrymwyd mewn perthynas â Phennod Dau o gynnig y CFfC. 12

Ffigur 5.1 Diagram corryn yn dangos y newidiadau a awgrymwyd mewn perthynas â Phennod Pedwar y cynnig CFfC. 19

Ffigur 5.2 Diagram corryn yn dangos y newidiadau a awgrymwyd yn ymwneud â’r camau rheoli cynefinoedd a gynigir ym Mhennod Pedwar y cynnig CFfC 20

Ffigur 5.3 Diagram corryn yn dangos y newidiadau a awgrymwyd yn ymwneud â’r camau rheoli coetir a gynigir ym Mhennod Pedwar y cynnig CFfC. 21

Ffigur 5.4 Diagram corryn yn dangos y newidiadau a awgrymwyd yn ymwneud â phrosesau monitor ac adrodd y cynllun. 22

Ffigur 6.1 Diagram corryn yn dangos newidiadau a awgrymwyd mewn perthynas â Phennod Pump y cynnig CFfC. 27

Ffigur 8.1 Diagram corryn yn dangos y sylwadau cyffredinol yn berthnasol i gynnig cyfan y CFfC. 31

## Atodiadau

**ATODIAD 1: RHESTR O SEFYDLIADAU A RODDODD ADBORTH 34**

# 1 RHAGARWEINIAD

## 1.1 Cefndir

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad o'r enw "Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru"[1]. Roedd y papur yn archwilio ar ba sail yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi ffermwyr yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad pellach ym mis Gorffennaf 2019 o'r enw "Ffermio Cynaliadwy a'n Tir"[2] a oedd yn ceisio adeiladu ar y cynigion a amlinellwyd yn "Brexit a'n tir" a mynd i'r afael a rhai o'r pryderon allweddol a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn.

Yn hytrach na thalu cymhorthdal uniongyrchol i ffermwyr yn seiliedig ar faint o dir amaethyddol y maent yn ei gynnal, roedd yr ymgynghoriad "Ffermio Cynaliadwy a'n Tir" yn cynnig cefnogi ffermwyr Cymru drwy ddarparu taliadau yn gyfnewid am gymhwyso arferion ffermio ar eu tir sy'n sicrhau canlyniadau sydd o fudd i Gymru gyfan yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol yn unol â'r cyd-destun polisi a ddarperir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015[3].

Roedd yr ymgynghoriad "Ffermio Cynaliadwy a'n Tir" hefyd yn amlinellu uchelgeisiau ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a fyddai'n sail ddeddfwriaethol ar gyfer polisi amaethyddol a thir Cymru yn y dyfodol.

Lansiwyd ymgynghoriad ar y ddeddfwriaeth arfaethedig hon (Papur Gwyn Amaethyddiaeth Cymru))[4] ym mis Rhagfyr 2020 ac roedd yn cynnwys cynigion ar gyfer :

- Cynllun Ffermio Cynaliadwy: polisi a chymorth yn y dyfodol;
- Cymorth i amaethyddiaeth yn y dyfodol ;
- Diwygio rheoleiddio;
- Cefnogaeth i ddiwydiant a'r gadwyn gyflenwi yn y dyfodol;
- Rheolaeth coedwigaeth a choetiroedd;
- Gwella iechyd a lles anifeiliaid;
- Gwella monitro trwy ddefnyddio data a thechnoleg o bell yn effeithiol;
- Disodli pwerau penodol a gynhwysir yn Neddf Amaethyddiaeth (DU) 2020.

Cyhoeddwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2021[5]. Roedd cefnogaeth eang i gynigion yn ymwneud â'r CFfC arfaethedig. Fodd bynnag, roedd y gefnogaeth hon yn dibynnu ar yr angen am fwy o eglurder ynghylch y cynigion, gan gynnwys may o fanylion am y camau gweithredu a'r prosesau y byddai disgwyl i ffermwyr eu cymryd fel rhan o'r cynllun.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynigion amlinellol ym mis Gorffennaf 2022 er mwyn rhoi mwy o eglurder a dangos sut y disgwylir i'r cynllun weithio'n ymarferol. Mae hwn yn gyhoeddiad eithaf cynhwysfawr sy'n amlinellu cwmpas a chynllun y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a manylion am y camau penodol y bydd disgwyl i ffermwyr eu cymryd fel rhan o'r cynllun a'r prosesau sy'n sail i'r camau gweithredu hyn.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfres o weithgareddau ymgysylltu ar ôl cyhoeddi'r cynigion amlinellol i gasglu adborth ar y cynllun. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o'r dadansoddiad o'r ffurflenni adborth a oedd ar gael i ffermwyr, grwpiau eraill, sefydliadau, a'r rhai nad ydynt yn ffermwyr.

Bydd y canfyddiadau a gyflwynir yma yn cyfrannu at ddatblygiad pellach y cynllun, ochr yn ochr â ffrydiau gwaith tystiolaeth a pholisi eraill (gan gynnwys cyd-ddylunio cam dau a Gweithgorau arbenigol).

## 1.2 Amcanion Ymchwil

Yr amcan craidd oedd dadansoddi'r data a gasglwyd drwy'r ffurflenni adborth, a nodi themâu a materion cyson a godwyd gan randdeiliaid. Rhoddwyd sylw arbennig i'r meysydd canlynol:

- Ymarferoldeb canfyddedig cynigion;
- Prif rwystrau i weithredu cynigion;
- A yw cynigion wedi'u deall yn llawn a'u cyfathrebu'n glir;
- Ystyriwyd pryderon, ymarferoldeb a rhwystrau i'r cynnig, a newidiadau a mesurau lliniaru a awgrymwyd yn benodol er mwyn rhoi'r cyngor gorau ar sut y dylai cynigion y CFfC symud ymlaen.

Arweiniwyd y dadansoddiad gan strwythur y cyhoeddiad cynigion Amlinellol ac roedd yn canolbwyntio ar elfennau allweddol o'r cyhoeddiad, gan gynnwys Pennod Pedwar (Fframwaith y CFfC) a Phennod Pump (Proses y CFfC).

## 1.3 Methodoleg

### 1.3.1 Prif Adborth y Dadansoddiad

Dadansoddwyd yr ymatebion a dderbyniwyd drwy'r broses ffurflen adborth i gynhyrchu adroddiad dwyieithog yn manylu ar y prif themâu a chanfyddiadau a ddeilliodd o'r ymatebion. Roedd y ffurflen adborth yn rhoi cyfle i ymatebwyr roi adborth ar bob pennod o gyhoeddiad y Cynllun Amlinellol a oedd yn cyfateb i chwe blwch testun rhydd. Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd gwblhau cyfres o gwestiynau demograffig a chwestiynau'n berthynol â'u fferm. Dadansoddwyd y data hwn gan ddefnyddio Excel.

Derbyniwyd cyfanswm o 105 o ymatebion fel rhan o'r ymarfer ymgysylltu hwn, a dadansoddwyd 100 ohonynt gyda'r gweddill wedi'u heithrio naill ai oherwydd dyblygu neu

er budd diogelu data. O'r 100 o ymatebion a ddadansoddwyd, darparwyd 69 gan ddefnyddio'r ffurflen adborth, ac roedd 31 yn ymatebion rhydd h.y. ymatebion drwy e-byst neu adroddiadau yr oedd sefydliadau wedi'u llunio.

Dadansoddwyd y data demograffig a ddarparwyd yn y ffurflenni adborth yn feintiol, tra dadansoddwyd yr adborth yn ansoddol. Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r ffurflenni adborth, a chafodd yr holl ymatebion eraill a ddarparwyd eu hadolygu'n feirniadol a'u crynhoi i roi cymorth a manylion ychwanegol i'r canfyddiadau o'r dadansoddiad o'r ffurflenni adborth.

### 1.3.2 Dadansoddiad Thematig

Defnyddiwyd dadansoddiad thematig i amlygu'r themâu allweddol a ymddangosodd yn y data ar y cyd ag amcanion yr ymchwil. Dangosodd ymchwilwyr safbwyntiau ymatebwyr trwy'r broses o leihau, segmentu a chategoreiddio (Braun a Clarke, 2006) gan ddefnyddio meddalwedd Nvivo.

Dilynwyd y broses ganlynol:

1. **Ymgyfarwyddo â'r data –**darllen trwy'r trawsgrifiadau ac amlygu sylwadau neu ymadroddion mewn perthynas ag amcanion yr ymchwil.

**2. Cynhyrchu codau cychwynnol -**dadansoddi systematig gan ddefnyddio meddalwedd dadansoddol, cynhyrchwyd codau a thestun wedi'i gategoreiddio trwy gymharu â chyferbynnu'r trawsgrifiadau cychwynnol.

**3. Chwilio am themâu –** adolygu'r codio a nodi meysydd tebyg ac yn gorgyffwrdd, eu cyfuno neu eu hailgodio'n bynciau/materion ehangach i gynhyrchu themâu sylfaenol y data.

**4. Adolygu a diffinio themâu –** y themâu'n cael eu hadolygu a'u diffinio er mwyn datgan yn glir ganfyddiadau unigryw a phenodol o'r data yn ogystal â myfyrio arnynt ar y cyd ag amcanion yr ymchwil.

## 1.4 Amlinelliad yr Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r dadansoddiad o 100 o ymatebion i 'Gynigion Amlinellol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer 2025' ac mae wedi'i nodi fel a ganlyn:

**Pennod Dau:** Dadansoddiad meintiol o ddemograffeg yr ymatebwyr..

**Penodau Tri i Saith:** Dadansoddiad ansoddol o adborth (cryno ac yna cadarnhaol, pryderon, newidiadau, a meysydd i'w hegluro yn ymwneud â meysydd allweddol a amlygwyd ym mhob pennod) ar y cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Amlinellol ar gyfer 2025.

**Pennod Wyth:** Adborth cyffredinol am y cynllun ar y cyfan..

Oherwydd nodweddion yr ymchwil, ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad meintiol o'r adborth. Trafodwyd sawl elfen o'r cynllun yn fanwl ar draws sawl pennod, sydd wedi amlygu rhywfaint o ailadrodd yn yr ymatebion. Er y cymerwyd pob gofal i leihau ailadrodd, mae peth gorgyffwrdd o fewn canfyddiadau pob pennod. Mae angen pwysleisio rhai elfennau a/neu sylwadau, er mwyn dangos eu harwyddocâd.

# 2 DATA DEMOGRAFFIG

Darparodd cyfanswm o 100 o ymatebwyr adborth ar gynnig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS): defnyddiodd 69% (n=69) y ffurflen adborth a rhoddodd 31% (n=31) adborth mewn fformat gwahanol.

Dim ond ymatebwyr a ddefnyddiodd y ffurflenni adborth a ddarparodd ddata demograffig, felly mae ymatebwyr a roddodd adborth mewn fformat arall wedi’u heithrio o’r dadansoddiad hwn.

O’r ymatebwyr a ddefnyddiodd y ffurflenni adborth, roedd ~77% (n=53) yn sefydliadau a ~23% (n=16) yn unigolion. Roedd cyfanswm yr ymatebwyr a oedd naill ai’n ffermwyr neu’n sefydliadau o’r sector ffermio yn cyfrif am 45% (n=31) o’r holl ymatebwyr a ddefnyddiodd ffurflen adborth.

O’r holl sefydliadau a ddefnyddiodd y ffurflen adborth, roedd sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol (SAA) yn cynrychioli 45% o’r ymatebion.

**Tabl 2.1: Ymatebwyr unigol a sefydliadol.**

| Math o ymatebydd | Nifer |
|---|---|
| Sefydliad | 53 |
| Unigolyn | 16 |

## 2.1 Data Lefel Sefydliadol

### 2.1.1 Lleoliad Gweithredu Sefydliad

O’r 53 o ymatebwyr o sefydliadau a ddefnyddiodd y ffurflen adborth, mae 68% wedi’u lleoli ac yn gweithredu yng Nghymru. Mae’r 32% sy’n weddill yn gweithredu yng Nghymru yn unig.

**Tabl 2.2: Ymatebwyr sefydliadol: lleoliadau sylfaen a gweithredu**

| Wedi’u lleoli/Gweithredu yng Nghymru | Sefydliadau |
|---|---|
| Lleoli a gweithredu yng Nghymru | 36 |
| Gweithredu yng Nghymru | 17 |

### 2.1.2 Y Sector Sefydliadol

Roedd y sefydliadau a ymatebodd yn dod o amrywiaeth eang o sectorau, a’r sector mwyaf cyffredin oedd y sector Amgylchedd ar 58% (n=31). Roedd 51% o sefydliadau yn y trydydd sector, ac yna 43% o Ffermio a Garddwriaeth. Roedd y sectorau sy’n weddill yn cyfrif am lai na chwarter yr holl ymatebwyr sefydliadol. (Tabl 2.3).

Gallai sefydliadau ddewis pob sector sy'n berthnasol iddynt, felly, efallai y bydd rhywfaint o dros groesi mewn sectorau sefydliadol.

**Tabl 2.3 Ymatebwyr sefydliadol - sector.**

| Sector Sefydliadol | Canran o sefydliadau |
|---|---|
| **Amgylchedd** | 58% |
| Trydydd Sector | 51% |
| Ffermio/Garddwriaeth | 43% |
| Coedwigaeth | 23% |
| Arall | 21% |
| Ymchwil/Academia | 15% |
| Cadwyni cyflenwi bwyd a phren | 13% |
| Sector Cyhoeddus | 13% |
| Sector Breifat | 13% |
| Twristiaeth/Lletygarwch | 11% |
| Undeb Llafur/Cynrychiolydd | 11% |
| Milfeddygol | 8% |
| Elusen | 8% |

## 2.2 Data Lefel Unigol

Roedd 32% (n=16) o'r ymatebwyr yn unigolion. Nododd 56% o ymatebwyr unigol fod ganddynt alwedigaeth heblaw am ffermio. Dywedodd 44% eu bod yn ffermwyr yn unig. Roedd 13% o'r ymatebwyr yn ffermwyr a chanddynt ail alwedigaeth hefyd..

**Tabl 2.4: Ymatebwyr unigol – galwedigaeth.**

| Galwedigaeth | Canran o unigolion |
|---|---|
| Arall | 56% |
| Ffermwr yn unig | 44% |
| Y ddau | 13% |

### 2.2.1 Sector Ffermio

O'r ymatebwyr unigol a oedd yn ffermwyr, ffermio defaid oedd y sector mwyaf cyffredin (56%). Dilynwyd hyn gan ffermio Gwartheg Eidion ar 33%, a ffermio Gwartheg Eidion Sugno a  Gwartheg Llaeth ar 22%.

Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn ar gyfer y cwestiwn hwn. Ni nodwyd unrhyw ffermwyr Ar, Dofednod a Moch yn y sampl.

**Tabl 2.5: Ymatebwyr Unigol – sector ffermio.**

| Sector | Canran o ffermwyr |
|---|---|
| Defaid | 56% |
| Gwartheg Eidion | 33% |
| Gwartheg Eidion Sugno | 22% |
| Gwartheg Llaeth | 22% |
| Garddwriaeth | 11% |
| Arall | 11% |
| Âr | 0% |
| Dofednod | 0% |
| Moch | 0% |

### 2.2.2 Lleoliad

Roedd yr holl ymatebwyr unigol yn byw yng Nghymru. Roedd 56% yn byw yn Ne Cymru, 31% yng Ngogledd Cymru ac 13% yn y Canolbarth. Roedd mwyafrif y ffermwyr unigol yn byw yng Ngogledd Cymru (56%).

**Table 2.6: Ymatebwyr unigol - rhanbarth.**

| Rhanbarth | Canran o unigolion | Canran o ffermwyr |
|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 31% | 56% |
| Canolbarth Cymru | 13% | 0% |
| De Cymru | 56% | 44% |

### 2.2.3 Oed

Roedd 75% o ymatebwyr unigol dros 55 oed. Roedd 19% yn 41-54 oed, a 6% rhwng 18-28 oed. Nid oedd unrhyw ymatebwyr 29-40 oed.

**Tabl 2.7 Ymatebwyr unigol – oed.**

| Ystod oedran | Canran o unigolion | Canran o ffermwyr |
|---|---|---|
| 18 i 28 | 6% | 11% |
| 29 i 40 | 0% | 0% |

| | | |
|---|---|---|
| 41 i 54 | 19% | 11% |
| 55 i 64 | 38% | 44% |
| 65+ | 38% | 33% |

# 3 ADBORTH AR BENNOD DAU: CYFLWYNIAD

## 3.1 Crynodeb Pennod

Pennod Dau o gynnig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy oedd y cyflwyniad i'r cynllun arfaethedig. Roed hwn yn cynnwys trosolwg o ddyluniad y cynllun ac yn nodi amcanion a chanlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (RhTG). Roedd hwn hefyd yn cynnwys ymateb i adborth o ymgynghoriadau blaenorol.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol am y bennod hon ac roedd canfyddiad cyffredinol bod eu lleisiau wedi cael eu clywed. Derbyniodd amcanion a chanlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (RhTG) yn arbennig, gefnogaeth. Fodd bynnag, cwestiynodd rhai ymatebwyr a fyddai'r cynllun yn darparu cymorth digonol i ffermwyr yn gyffredinol a thrwy gamau gweithredu (e.e. cynnal mynediad cyhoeddus a gweinyddi'r cynllun), ac a oedd rhai camau gweithredu wedi'u hystyried o ran yr effaith negyddol bosibl y gallent ei chael (e.e. gallai arferion ffermio cynaliadwy sy'n lleihau allbynnau effeithio ar ddiogeled bwyd).

Roedd yr awgrymiadau am newidiadau yn cynnwys diwygio trothwyon cymhwysedd a galluogi dull gweithredu wedi'i deilwra i adlewyrchu heterogenedd mathau o ffermydd ledled Cymru. Gofynnwyd am ragor o eglurhad ynghylch y camau gweithredu arfaethedig, manylion am weinyddiad y cynllun a'r defnydd o eiriau neu ymadroddion penodol (h.y. 'cynaliadwy' mewn perthynas â chynhyrchu bwyd). Galwodd ymatebwyr hefyd am ddiffiniad cliriach o 'ddiogeledd bwyd' a sut y gallai hyn fod yn wahanol i 'sofraniaeth bwyd'.

Archwilir y themâu hyn yn fanylach isod.

## 3.2 Rheoli Tir yn Gynaliadwy (RhTG) Amcanion a Chanlyniadau

Roedd cefnogaeth eang i'r bennod hon, yn enwedig mewn perthynas ag amcanion RhTG a'u ffocws cry far ganlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol. Roedd yr ymatebwyr yn falch o weld yr integreiddio rhwng cynhyrchu bwyd a chamau gweithredu amgylcheddol o fewn yr amcanion a'r canlyniadau hyn.

Cafodd y pwyslais ar 'rannu tir' dderbyniad da, ac roedd ymatebwyr i'w gweld yn gadarnhaol Ynghylch y cysyniad o un darn o dir yn darparu gwasanaethau ecosystem luosog neu'n cael ei ddefnyddio i gefnogi amaethyddiaeth a'r ecosystem. Gefnogwyd hyn yn arbennig gan SSA, gan nodi bod rhannu tir yn cyd-fynd ag arwyddion agroecolegol ac y bydd yn cefnogi ymagwedd fferm gyfan at gynaliadwyedd yn hytrach na diarddel gweithgareddau amgylcheddol i rannau penodol o'r fferm. Nodwyd pwyslais y cynllun ar fynediad cyhoeddus a hawliau tramwy (HTC) fel meysydd cadarnhaol gan gymdeithasau'r cerddwyr a sefydliadau tebyg, er nad oedd hwn yn ganfyddiad cyson gan sectorau eraill.

Roedd pryderon ynghylch amcanion a chanlyniadau RhTG yn canolbwyntio ar gyfaddawdau posibl, er enghraifft, rhwng cadw arferion diwylliannol a chamau gweithredu cynaliadwyedd pan allai'r arferion diwylliannol hyn fod yn niweidiol i'r amgylchedd (defnyddiwyd gorbori fel enghraifft o hyn). Amlygodd nifer fach o ymatebwyr hefyd gyfaddawdau posibl rhwng ymuno â'r CFfC a chynlluniau a ariennir yn breifat sy'n cefnogi darparu gwasanaethau ecosystem. Roedd yr ymatebwyr hyn eisiau sicrwydd na fyddai'r CFfC yn 'gorlenwi' y

cynlluniau hyn ac y byddai cyfranogwyr y cynllun yn dal yn rhydd i fentrau preifat tra'n aelodau o'r SFS.

Er bod ystod eang o ymatebwyr wedi canmol cwmpas a chyfeiriad cyffredinol amcanion a chanlyniadau'r CFfC, gofynnwyd am eglurhad pellach gan gyfeirio'n benodol at eiriad yr amcanion a'r canlyniadau. Gofynnwyd yn aml i ddiffinio ystyr 'Rheoli Tir yn Gynaliadwy' a 'chynhyrchu bwyd cynaliadwy' yn ymarferol. Gofynnodd nifer fach o ymatebwyr am eglurhad ynghylch y gwahaniaeth rhwng 'diogeled bwyd' a 'sofraniaeth bwyd', a beth oedd ystyr 'rhannu tir'. Roedd rhai cwestiynau hefyd ynghylch sut roedd amcanion Cynllun Ffermio cynaliadwy (RhTG) yn cyd-fynd â deddfwriaeth gyfredol ac arfaethedig (e.e. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Bil Amaethyddiaeth (Cymru)) ac awgrymwyd y gellid defnyddio diffiniadau a geir yn y darnau hyn o ddeddfwriaeth ar gyfer termau sy'n cael eu crybwyll hefyd yn y CFfC i helpu eglurder.

Gofynnodd nifer fach o ymatebwyr hefyd am fwy o eglurder ynghylch sut mae'r cynllun yn ceisio gwella bioamrywiaeth ac iechyd anifeiliaid gan nad oedd y rhain wedi'u nodi'n benodol yn nyluniad y cynllun, er eu bod wedi'u crybwyll yn amcanion CFfC.

## 3.3 - Cefnogaeth i Ffermwyr

Roedd ymatebwyr yn awyddus i wybod mwy am y cymorth y byddai'r cynllun yn ei ddarparu. O ran cyllid, roedd sicrhau bod ymuno â'r CFfC yn ymarferol yn economaidd i ffermwyr yn bryder mawr i'r ymatebwyr. Roedd rhai ymatebwyr hefyd eisiau mwy o fanylion am y cyllid sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant ac uwchsgilio.

Roedd rhannu gwybodaeth a chymorth ymgynghorol yn feysydd allweddol ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr. Roedd ymatebwyr eisiau sicrwydd y byddai'r cynllun yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth rhwng ffermwyr. Roedd galwadau hefyd i roi cymorth i ffermwyr gyda chyngor ac arweiniad oherwydd y straen a'r pryder y mae newid yn aml yn ei achosi.

Amlygwyd pryderon pellach ynghylch faint o amser y gallai ffermwyr ei dreulio ar ddyletswyddau gweinyddol ychwanegol. Codwyd hyn fel pryder arbennig ar gyfer ffermydd llai sy'n aml yn cael eu rhedeg gan deulu neu'n cael eu cefnogi gan incwm naill ai o ail swydd neu briod.

Roedd nifer o ymatebwyr yn pryderu efallai na fyddai busnesau garddwriaethol a ffermwyr tenant yn cael eu cefnogi gan y cynllun. Awgrymwyd newidiadau i drothwyon cymhwyster, yn benodol lleihau'r gofyniad arwynebedd tir o 3ha i 1ha gan fod y cynllun yn cael ei gynnig ar hyn o bryd i eithrio busnesau sy'n gweithredu a3 1-3 ha o dir. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod busnesau garddwriaethol yn gweithredu'n llwyddiannus ar gyn lleied ag 1ha a theimlent na ddylid atal y busnesau hyn rhag ymuno â'r cynllun. Fel arall, awgrymodd rhai ymatebwyr ddefnyddio trothwy yn seiliedig ar drosiant neu nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn i benderfynu pa fusnesau y dylid caniatáu iddynt ymuno â'r cynllun. Awgrymodd nifer llai o ymatebwyr y dylid lleihau hyd contract y cynllun gan y byddai'r cynnig presennol i'r contract fod hyd at bum mlynedd o hyd yn eithrio ffermwyr tenant ar gontractau llai na phum mlynedd o hyd. I'r gwrthwyneb, roedd rhai ymatebwyr eisiau cytundebau hirach o dan y cynllun lle bo'n briodol, gyda chamau rheoli cynefinoedd a phlannu coed yn cael eu hamlygu fel meysydd lle byddai hyn yn fwyaf buddiol.

Teimlai nifer gyfyngedig o ymatebwyr y byddai y CFfC yn gwbl ddigidol yn rhwystr i ffermwyr â chysylltiad rhyngrwyd gwael neu lythrennedd TG gwael, ac y byddai angen cymorth i liniaru hyn.

Awgrymodd ymatebwyr o'r sector hawliau anifeiliaid y dylid cefnogi ffermwyr i newid oddi wrth ffermio da byw ac i dyfu cnydau i'w bwyta'n uniongyrchol gan bobl yn lle hynny. Fodd bynnag, dim ond gan nifer gyfyngedig iawn y daeth yr awgrym hwn.

Yn olaf, amlygodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch argaeledd arolygwyr sydd wedi'u hyfforddi'n addas ar gyfer gweinyddu'r archwiliadau.

## 3.4 Sylwadau Gweithred-Benodol

### 3.4.1 Sylwadau'n Berthnasol i Goetir

Un o'r pynciau mwyaf dadleuol a godwyd oedd gofyniad y cynllun i 10% o dir fferm fod dan orchudd coed. Trafodir y pwynt hwn ym Mhennod Pedwar yr adroddiad hwn, gyda ffocws penodol ar ddichonoldeb maint y gorchudd coed a gynigir. Roedd y pryderon a godwyd yn y bennod hon yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng iechyd anifeiliaid a choed cynhenid, a sut y caiff coetiroedd eu rheoli o dan y cynllun. Os oes gofyniad i beidio â phori'r coetiroedd, roedd ymatebwyr yn pryderu am yr effeithiau dilynol posibl (e.e. gôr stocio) ar weddill y daliad. Gallai caniatáu i ffermwyr barhau i ddefnyddio tir o dan goed fel porfa liniaru'r pryder hwn, ond cydnabuwyd na fydd hyn yn bosibl ym mhob sefyllfa. Mae'n bosibl y byddai angen cyfyngiadau pori hefyd mewn rhai achosion lle mae'r coed yn peri risg i dda byw (e.e., pryder ynghylch gwenwyndra sy'n gysylltiedig â choed derw, sycamorwydden ac yw) ac felly mae'n bosibl y bydd cynyddu gorchudd yn anochel yn lleihau'r tir sydd ar gael er gyfer pori.

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn poeni fod diffyg meithrinfeydd coed brodorol lleol ar hyn o bryd i ddarparu glasbrennau, a dylid ystyried bod y risg o ledaenu clefyd o goed a fewnforiwyd yn sylweddol. Felly, er bod ymatebwyr wedi awgrymu y dylai'r holl goed a ddefnyddir dod o'r UD ac Iwerddon, gallai diffyg meithrinfeydd digonol i ddarparu'r stoc plannu wneud hyn yn anodd ei gyflawni.

Roedd hefyd rhai ceisiadau am eglurhad ynghylch y camau gweithredu coetir a gynigir o dan y cynllun. Roedd y ceisiadau hyn yn cynnwys a ellid plannu coed yn unigol neu a oedd yn rhaid iddynt fod mewn blociau ac a fyddai'r gwrychoedd a/neu'r cynefin yn cael eu cynnwys yn y gofyniad 10%. Trafodir yr elfennau hyn ymhellach ym Mhennod pump yr adroddiad hwn.

### 3.4.2 Sylwadau'n Ymwneud â Mynediad Cyhoeddus

Er bod rhai ymatebwyr wedi mynegi pryder ynghylch yr adnoddau y byddai eu hangen arno, awgrymodd eraill y gallai'r CFfC wneud mwy i wella hawliau tramwy cyhoeddus (HTC). Dywedodd yr ymatebwyr hyn, yn bennaf o'r trydydd sector ac sy'n eiriol dros gynyddu mynediad cyhoeddus, y dylid gwella'r holl Hawliau Tramwy Cyhoeddus a this mynediad cyhoeddus i 'safon y gellir ei ddefnyddio', naill ai ochr yn ochr neu cyn creu llwybrau newydd. Awgrymodd yr ymatebwyr hyn y dylid cynnwys cam gweithredu cyffredinol i ffermwyr 'gynnal a gwella' llwybrau cyhoeddus ar eu tir gan y byddai hyn yn lleihau'r pryderon o ran adnoddau i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, byddai gweithredu hyn yn gofyn am ofal i

sicrhau nad oedd ffermwyr yn cael eu talu naill ai am gamau gweithredu o dan gylch gwaith awdurdodau lleol neu'r rhai sy'n ofynnol gan reoliadau.

## 3.5 Hyblygrwydd Cynyddol

Roedd llawer o ymatebwyr yn poeni nad oedd y cynnig yn ddigon hyblyg i weddu i ystod o wahanol ffermydd ledled Cymru ac y gallai hyn leihau'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun. Awgrymodd yr ymatebwyr hyn y gallai dull mwy pwrpasol sy'n addasu'r trothwyon i gyfranogwyr unigol y cynllun liniaru hwn. Er enghraifft, codwyd nifer fawr o bryderon ynghylch y gofyniad gorchudd coed, ac awgrymodd yr ymatebwyr y gellid teilwra'r trothwy hwn yn benodol ar gyfer y cyfranogwr unigol. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys amrywio canran y gorchudd yn dibynnu ar faint a/neu addasrwydd y fferm. Nodwyd cnydau gorchudd fel dewisiadau amgen derbyniol ar gyfer atafael carbon a buddion bioamrywiaeth lle mae tir yn anaddas ar gyfer sefydlu coed.

## 3.6 Newidiadau a Awgrymwyd

Gwnaed amrywiaeth o awgrymiadau ychwanegol gan ymatebwyr, gan gynnwys rhannu a chasglu data i fonitro iechyd anifeiliaid (meincnodi a DPA-. Cyflwynir y rhain yn Ffigur 3.1.




**Ffigur 3.1 Diagram corryn yn dangos y newidiadau a awgrymwyd mewn perthynas â Phennod Dau o gynnig y CFfC.**

# 4 ADBORTH AR BENNOD TRI: STRWYTHUR Y CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

## 4.1 Crynodeb o'r Bennod

Roedd Pennod Tri yn nosi strwythur y CFfC. Roedd y bennod hon yn rhoi manylion am y tair haen wahanol (cyffredinol, dewisol a chydweithredol) a sut mae'r rhain yn rhyngweithio â'i gilydd. Roedd y bennod hon hefyd yn rhoi manylion am y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) arfaethedig a fyddai'n cael eu gweithredu ochr yn ochr â'r cynllun.

Roedd ymatebion y cyfranogwyr ynghylch strwythur y cynllun yn gadarnhaol o ran y dull haenog arfaethedig, cynnwys haen gydweithredol, a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, y ddeddfwriaeth a fydd yn cyd-fynd â hwy a'r dulliau cymorth sydd ar gael i gyfranogwyr y cynllun. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn cwestiynu a aeth y cynllun yn ddigon pell o ran bodloni amcanion a chanlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy a nodir ym Mhennod Dau o gynigion y CFfC.

Roedd y newidiadau a awgrymwyd yn ymwneud yn bennaf â gweinyddiaeth y cynllun a'r strwythur haenog. Roedd yr eglurhad pellach a geisiwyd hefyd yn ymwneud â'r elfennau hyn.

Archwilir y themâu hyn yn fanylach isod.

## 4.2 Strwythur Haenog

Cefnogwyd y strwythur haenog yn eang. Canfuwyd bod yr haenau ar gyfer gwahanol gamau gweithredu (cyffredinol, dewisol a chydweithredol) a'r lefelau ariannu a ddefnyddiwyd yn rhesymegol ac yn hawdd eu deall.

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn pryderu na fyddai'r camau gweithredu cyffredinol a gynigir yn gwneud llawer i wella safonau ar y cyflymder y mae datganiadau Argyfwng Natur a Hinsawdd Llywodraeth Cymru yn ei awgrymu sy'n angenrheidiol. Fel y cyfryw, awgrymodd ymatebwyr y dylai'r cynllun wneud mwy i gymell cymryd camau gweithredu dewisol neu gydweithredol a fydd yn cael mwy o effaith. Awgrymodd ymatebwyr y byddai sicrhau bod strwythur ariannu'r cynllun yn cymell ffermwyr yn gyntaf i ymuno â'r cynllun ac yna anelu'n uwch ac am gamau gweithredu mwy uchelgeisiol yn ffordd dda o wneud hyn. Byddai hyn yn golygu bod angen i'r taliad sylfaenol fod yn ddigon i gymell ffermwyr i ymuno, ond nid mor uchel fel mai ychydig o wahaniaeth sydd yn y taliad am gamau gweithredu cyffredinol a rhai dewisol neu gydweithredol.

Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylai'r CFfC gynnwys camau gweithredu sy'n effeithio ar gadwyni cyflenwi bwyd hefyd. Y rheswm dros hyn oedd bod gwella arferion ffermio yn gam i'r cyfeiriad cywir ond na fyddai'n gwneud fawr ddim i wella'r system cyflenwi bwyd yn gyffredinol. Un enghraifft a roddwyd oedd y dylai'r cynllun gefnogi siopau i stocio bwyd a gynhyrchir yn lleol ac yn gynaliadwy, gan y gallai hyn wella'r galw a gwneud y system fwyd cyfan yn fwy cynaliadwy. Awgrymodd un ymatebwr hefyd y gellid ychwanegu lefel newydd uwchlaw'r lefel gydweithredu ar gyfer camau 'systematig' yn edrych ar systemau bwyd and nid dim ond y gadwyn cyflenwi.

Dywedodd nifer fach o ymatebwyr eu bod eisiau mwy o gysylltiad rhwng y tair haen, gyda'r posibilrwydd o gydweithio ar gamau gweithredu cyffredinol a dewisol. Y rheswm dros yr awgrym hwn oedd y byddai'n ei gwneud yn haws i ffermwyr gymryd camau sy'n cael mwy o effaith amgylcheddol. O fewn hyn, roedd rhai ymatebwyr am gael eglurhad ynghylch y mesurau a fyddai'n cael eu defnyddio i sicrhau y byddai'r camau a gymerwyd o dan yr haen gydweithredu yn wirioneddol gydweithredol ac yn cwmpasu

Yn yr un modd â'r sylwadau a grybwyllwyd yn y bennod flaenorol, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai camau gweithredu'r cynlyn fod wedi'u teilwra'n fwy na'r cynnig a amlinellwyd, yn benodol ynghylch camau cyffredinol y mae'n ofynnol i gyfranogwyr y cynllun eu cymryd. Teimlai'r ymatebwyr y dylai'r cynllun ystyried amgylchiadau amrywiol, yn enwedig o ran y ffaith y gallai rhai camau gweithredu fod yn fwy heriol i ffermydd llai na rhai mwy. Fel rhan o hyn, roedd rhai ymatebwyr hefyd am gael eglurhad ynghylch y defnydd posibl o randdirymiadau ac eithriadau cynllun. Er enghraifft, gellid caniatáu rhanddirymiadau i ffermwyr nad oeddent yn gallu cydymffurfio â holl ofynion y cynllun am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth (e.e. tir yn anaddas ar gyfer plannu coed).

## 4.3 Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Codwyd pwnc y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) yn aml gan ymatebwyr. Cawsant gefnogaeth eang, cawsant eu gweld fel diweddariad defnyddiol i ddeddfwriaeth amaethyddol bresennol, a chanmolodd ymatebwyr y bwriad o ddefnyddio'r rhain i wella cynaliadwyedd amaethyddol. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn cytuno â chynnig y cynllun y dylid gwneud taliadau am gamau gweithredu sy'n mynd y tu hwnt i'r rhai a nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn unig.

Yn union fel y teimlai rhai ymatebwyr nad oedd y camau gweithredu cyffredinol yn mynd yn ddigon pell, teimlai rhai ymatebwyr yr un fath ynghylch y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, gan ddweud na fyddai unrhyw newid sylfaenol. Roedd nifer cyfyngedig o ymatebwyr hefyd yn teimlo bod cynigion presennol y SGC yn colli cyfle i wneud y Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) gwirfoddol yn orfodol gan nad yw rhai wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth ar hyn o bryd. Yn gysylltiedig â hyn, roedd ymatebwyr 6â'r un cefndir yn pryderu am yr amserlen ofynnol i basio'r ddeddfwriaeth angenrheidiol ac y byddai hyn yn digwydd ar ôl dechrau cyflwyno'r CFfC.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad ynghylch yr amserlen ar gyfer y ddeddfwriaeth a fydd yn gwneud y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn statudol. Teimlai ymatebwyr pe bai'r CFfC yn cael ei lansio cyn i'r SGC gael ei wneud yn statudol yna byddai'n 'rhoi'r drol o flaen y ceffyl'.

Yn olaf, roedd yn ymddangos bod nifer fach o ymatebwyr wedi drysu, gan ddehongli'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol fel rhan o'r CFfC neu fel safonau gwirfoddol, yn hytrach na darn newydd o ddeddfwriaeth ar wahân i'r CFfC. Mae sylwadau megis sut y bydd y SGC yn dewis wrth i ddeddfwriaeth newid yn awgrymu y gallai fod angen eglurhad bod y SGC yn ddeddfwriaeth newydd.

## 4.4 Awdurdodau Lleol

Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch adnoddau awdurdodau lleol. Nodwyd bod awdurdodau lleol yn darparu gwaith cynnal a chadw Hawliau Tramwy cyhoeddus a chynnal a chadw tir comin; cefnogi mynediad lleol, hamdden a bioamrywiaeth, a darparu cymorth deddfwriaethol. O’r herwydd, mae awdurdodau lleol yn hollbwysig o ran gweithredu’r CFfC ac fel cynghorwyr oherwydd eu profiad technegol ac ymarferol. Felly gallai unrhyw gyfyngiadau amser ac adnoddau y maent yn eu hwynebu effeithio’n ddifrifol ar gyflwyno’r cynllun.

Codwyd materion penodol gan sefydliadau sy’n cynrychioli HTC a defnyddwyr mynediad lleol a oedd yn teimlo pe bai’r gost o greu a chynnal a chadw llwybrau troed newydd a gynigiwyd gan y cynllun yn disgyn i awdurdodau lleol y byddai hyn yn ymestyn cyllideb sydd eisoes yn dynn yn rhy bell. Fel dull o liniaru hyn, awgrymodd fforwm mynediad lleol y dylai ffermwyr sy’n derbyn cyllid ar gyfer llwybrau newydd ar eu tir dderbyn cyfrifoldeb am eu cynnal a’u cadw. Fodd bynnag, dim ond nifer gyfyngedig iawn o ymatebwyr a gododd hyn. Awgrym arall oedd y gallai’r gymuned leol gyfrannu at gynnal a chadw gan eu bod ymhlith y prif fuddiolwyr o unrhyw welliannau i fynediad cyhoeddus. Amlygodd ymatebwyr hefyd y potensial ar gyfer mwy o sbwriel ar dir fferm a throseddau gwledig posibl, oherwydd mwy o fynediad i’r cyhoedd a niferoedd uwch o ymwelwyr.

## 4.5 Monitro a Gorfodi

Holodd llawer o ymatebwyr dro ar ôl tro pa gosbau fyddai’n cael eu defnyddio i orfodi’r cynllun. Roedd rhai ymatebwyr eisiau cadarnhad y byddai’r cosbau’n gymesur â’r tordyletswydd, tra bod eraill eisiau sicrwydd y byddai’r cosbau’n ddigon cadarn i atal diffyg cydymffurfio, megis atal cyllid nes bod diffyg cydymffurfio yn cael ei unioni, neu y byddai erlyniad sifil a throseddol yn cael ei ddefnyddio pe ystyrid yn angenrheidiol ar gyfer troseddwyr cyfresol.

## 4.6 Gweithredoedd Cyffredinol

Holodd rhai ymatebwyr am rai o’r camau gweithredu penodol a gynigir o dan y cynllun ac awgrymu newidiadau neu gamau gweithredu cyffredinol newydd. Roedd ceisiadau am eglurhad yn canolbwyntio ar y camau gweithredu sy’n ymwneud â choedwigaeth, cynefinoedd ac adfer rhywogaethau. Fodd bynnag, gan fod y rhain yn ymwneud yn fwy â fframwaith y CFfC na’r strwythur, trafodir y canfyddiadau hyn yn y bennod nesaf.

Crynhoir awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu cyffredinol ychwanegol a ffyrdd o gefnogi cyfranogwyr y cynllun ymhellach yn Ffigur 4.2




**Ffigur 4. Diagram corryn yn dangos y newidiadau a awgrymir mewn perthynas â Phennod Tri o gynnig y CFfC**

# 5 ADBORTH AR BENNOD PEDWAR: FFRAMWAITH A CHYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

## 5.1 Crynodeb o’r Bennod

Roedd Pennod Pedwar o gynigion y CFfC yn rhoi manylion ynghylch camau gweithredu arfaethedig y cynllun. Dynodwyd yr holl gamau gweithredu a gynigiwyd naill ai fel rhai cyffredinol, dewisol neu gydweithredol, a darparwyd y rhesymeg y tu ôl i bob un. Roedd yr adran hon hefyd yn manylu ar y cymorth cyswllt Ffermio a fyddai ar gael i helpu i gydymffurfio â’r cynllun.

Darparodd ymatebwyr y nifer mwyaf o adborth ar y bennod hon. Roedd yr adborth am ffocws amgylcheddol y cynnig yn gadarnhaol ac roedd canmoliaeth arbennig i’r camau cadwraeth sy’n ymwneud â chadw bridiau brodorol. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn croesawu integreiddio Cyswllt Ffermio ac yn dangos cefnogaeth i gael mynediad at gyrsiau hyfforddi a chyngor technegol.

Amlinellwyd pedwar prif faes o bryder yn yr adborth. Roedd y rhain yn ymwneud â choetiroedd a chynefinoedd, manylion am reoliadau, cymorth ariannol (mecanweithiau talu a lefel y cyllid) a gweinyddiaeth y cynllun.

Awgrymodd yr ymatebwyr amrywiaeth o newidiadau i fframwaith y cynllun. Roedd y rhain yn ymwneud â chamau gweithredu yn yr haen Gyffredinol (gan ychwanegu a dileu gweithredoedd). Awgrymodd ymatebwyr hefyd y dylid ychwanegu camau gweithredu yn ymwneud â rheoli cynefinoedd, rheoli coetiroedd, rheoli cyrsiau dŵr, iechyd pridd, gwella hawliau tramwy cyhoeddus (mynediad a gwybodaeth) a lleihau mewnbynnau at yr haen gyffredinol.

Roedd y meysydd oedd angen eu hegluro ymhellach yn adlewyrchu’r pryderon a’r newidiadau arfaethedig. Roedd y rhain yn cynnwys gorchudd coetir a chynefin, system weinyddu a monitro’r cynllun a lefel y cymorth ymgynghorol a fyddai’n cael ei gynnig.

Archwilir y themâu hyn yn fanylach isod.

## 5.2 Camau Gweithredu Arfaethedig – Adborth Cyffredinol

### 5.2.1 Camau Gweithredu Arfaethedig - Cadarnhaol

Er gwaethaf amrywiaeth yr ymatebwyr (teimlai rhai ymatebwyr y gallai’r cynllun fod yn ceisio gwneud gormod tra bod eraill yn teimlo nad oedd yn mynd yn ddigon pell), roedd yr ymateb cyffredinol i’r camau gweithredu unigol arfaethedig yn gyffredinol gadarnhaol. Roedd ymatebwyr SSA yn cefnogi ffocws amgylcheddol rhai camau gweithredu (e.e. gofynion ar gyfer 10% o goetiroedd a chynefinoedd lled-naturiol, safleoedd gwarchodedig, ac ati), tra bod yr ymatebwyr hynny â ffocws mynediad cyhoeddus yn cefnogi’r ffocws ar wella mynediad cyhoeddus a Hawliau Tramwy Cyhoeddus, ac roedd ymatebwyr a oedd yn gysylltiedig â hybu ffermio cynaliadwy yn gefnogol i’r camau gweithredu arfaethedig i adfer dulliau ffermio cymysg ac i ddiogelu amrywiaeth genetig y ddiadell ddefaid cenedlaethol Cymreig.

### 5.2.2 Camau Gweithredu Arfaethedig – Pryderon Cyffredin

Roedd rhai o'r pryderon a godwyd yn ymwneud â haen gyffredinol y cynllun. Roedd hyn yn ymwneud â sut y gellid cryfhau ac ehangu'r camau gweithredu presennol (e.e. profi pridd, HTC, rheoli cyrsiau dŵr), tynnu sylw at gamau gweithredu y teimlent oedd ar goll (e.e. iechyd anifeiliaid, rhywogaethau anfrodol goresgynnol (RhAG), a lleihau allyriadau) ac eglurhad ynghylch y lefel cymorth (cynghorol ac ariannol) a fyddai ar gael (e.e. ar gyfer gweithredu camau rheoli llifogydd naturiol (RhLlN), ar gyfer mwy o fonitro da byw i liniaru effaith lleihau'r defnydd arferol a gwrthfiotigau).

O ran profi pridd, awgrymodd rhai ymatebwyr, yn ogystal ag ymrwymo i'r prawf ei hun, y dylai fod yn ofynnol hefyd i gyfranogwyr y cynllun ymrwymo i newid arferion mewn ymateb i ganlyniad y prawf. Awgrymwyd ymhellach y gellid cryfhau mynediad cyhoeddus hân gynnwys uwchraddio llwybrau i lwybrau aml-ddefnydd ac ymrwymo'r awdurdod cyfrifol i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o unrhyw lwybrau newydd sy'n cael eu creu. Roedd y camau rheoli cyrsiau dŵr ychwanegol a awgrymwyd yn cynnwys cefnogi creu lleiniau clustogi, cefnogi'r defnydd o afancod fel rheolwyr cyrsiau dŵr naturiol (dim ond wedi'i awgrymu gan ymatebwyr â chefndir ymchwil amgylcheddol) a defnyddio dyluniad llinell allweddol (defnyddio topograffeg fferm i suddo a thaenu dŵr glaw i'w storio) i arafu llif y dŵr.

Roedd ymatebwyr hefyd eisiau sicrwydd y byddai'r camau gweithredu'n cael eu cynhwyso mewn modd cyflenwol i leihau rhyngweithiadau negyddol a chyfaddawdau. Er enghraifft, sicrhau nad oedd cynhyrchiant porthiant ar y fferm yn cael ei dyfu ar dir anaddas, bod gweithredoedd ail-wlychu mawndiroedd yn cael eu cysylltu â rheolaeth briodol ar lystyfiant mawndir uwchben y ddaear er mwyn lleihau'r perygl o dân yn ystod cyfnodau o sychder, a lleihau'r ardaloedd pori mewn rhai caeau drwy gynyddu ffiniau caeau i dri metr o led a chreu nodweddion fel pyllau a sgrapiau yn arwain at or-stocio mewn mannau eraill ar y fferm. Cododd rhai ymatebwyr hefyd fod angen mwy o eglurhad ynghylch cynyddu lled ffiniau caeau, gan gyfeirio'n benodol at yr amcan ar gyfer y cam gweithredu. Teimlai'r ymatebwyr hyn, os mai bioddiogelwch oedd yr amcan, efallai na fyddai angen tri metr ar gyfer bob ffin. Efallai hefyd na fydd yn berthnasol i ffiniau cadarn presennol (e.e. waliau cerrig).

Roedd nifer fach o ymatebwyr hefyd yn cwestiynu cadernid y camau gweithredu cyffredinol ac a fyddent yn cynnwys bylchau sy'n golygu y gallai ffermydd dwys ac anghynaladwy barhau i dderbyn cymhorthdal hab yr angen i wella cynaliadwyedd cyffredinol. Er enghraifft, dywedwyd y gallai fferm gyflawni'r holl gamau cyffredinol ac na fyddai'n rhaid iddi leihau'r defnydd o blaladdwyr neu wrtaith. Awgrymodd ymatebwyr y gellid lliniaru'r risg hon drwy ddiwygio'r haen gweithredu cyffredinol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cyflwyno camau gweithredu yn ymwneud â lleihau mewnbwn (e.e. cylchdroadau cymysg), ymrwymo cyfranogwyr garddwriaeth i beidio â defnyddio mewnbynnau artiffisial, cymell gostyngiadau yn y defnydd o blaladdwyr a chwynladdwyr, a safonau clir i fonitro llif llygredd oddi ar y fferm i gyrsiau dŵr.

Roedd yr ymatebwyr hefyd am dynnu sylw at werth yr hyn a gyflawnwyd eisoes drwy gynlluniau blaenorol ac roeddent am gael sicrwydd y byddai ffermwyr a oedd wedi mabwysiadu arferion rheoli cynaliadwy yn gynnar yn cael eu cydnabod o fewn y cynllun rywsut (e.e. yn gallu ennill cydnabyddiaeth).

Yn ogystal â'r rhai a grybwyllwyd uchod, roedd ystod eang o newidiadau eraill a awgrymwyd mai dim ond ychydig o ymatebwyr a'u crybwyllodd. Crynhoir y rhain yn Ffigur 5.




**Ffigur 5.1 Diagram corryn yn dangos y newidiadau a awgrymwyd mewn perthynas â Phennod Pedwar y cynnig CFfC.**

### 5.2.3 Camau Gweithredu Arfaethedig – Coetir a Chynefin – Adborth Penodol

Fel y crybwyllwyd ar ddechrau'r adran hon (5.3), cafodd y camau gweithredu arfaethedig ar goetiroedd a chynefinoedd gefnogaeth gadarnhaol gan ymatebwyr y SAA. Fodd bynnag, cododd llawer o ymatebwyr eraill bryderon anghyson ynghylch sut y byddai'r ardaloedd hyn yn cael eu rheoli (e.e. cyfradd stoci), yr effaith bosibl ar fynediad cyhoeddus, sut roedd y camau hyn yn ymwneud â thir comin. Roedd pryderon cystadleuol yn ymwneud yn bennaf â'r gorchudd o 10% o goetiroedd a chynefinoedd ac a ddylid cyfuno'r rhain neu eu cadw fel elfennau ar wahân.

Er bod llawer o ymatebwyr wedi awgrymu cyfuno'r 10% o orchudd coed â thir cynefin neu gynnwys gwrychoedd yn y naill neu'r llall o'r cwotâu hyn, roedd nifer sylweddol o gyrff anllywodraethol eisiau sicrwydd y byddai'r gorchudd coed a chynefinoedd gofynnol yn cael ei gadw ar wahân.

Roedd ymatebwyr yn cynrychioli buddiannau cymdeithasau comin yn ceisio sicrwydd y bydd y cynllun yn berthnasol i dir comin. Roeddent am gael sicrwydd bod pwysigrwydd tiroedd comin ar gyfer bioamrywiaeth, cynefinoedd ac ecosystemau yn cael ei adlewyrchu yn y cynigion. Roedd eraill hefyd yn codi'r tensiwn y byddai plannu coed ar dir comin yn ei greu rhwng tirfeddianwyr a deiliaid hawliau comin, gyda rhai hyd yn oed yn amau cyfreithlondeb plannu coed ar dir comin.

Awgrymwyd ystod eang o newidiadau i'r camau gweithredu arfaethedig yn ymwneud â choetiroedd a chynefinoedd. Mae'r awgrymiadau sy'n ymwneud yn benodol â'r camau rheoli cynefinoedd wedi'u crynhoi yn ffigur 5.2. Crynhoir y newidiadau hynny sy'n ymwneud â chamau gweithredu rheoli coetir yn Ffigur 5.3.




**Ffigur 5.2 Diagram corryn yn dangos y newidiadau a awgrymwyd yn ymwneud â'r camau rheoli cynefinoedd a gynigir ym Mhennod Pedwar y cynnig CFfC**




**Ffigur 5.3 Diagram corryn yn dangos y newidiadau a awgrymwyd yn ymwneud â'r camau rheoli coetir a gynigir ym Mhennod Pedwar y cynnig CFfC.**

## 5.3 Monitro ac Adrodd

Derbyniodd yr egwyddorion y tu ôl i'r cynigion ar gyfer sut y byddai'r cynllun yn cael ei fonitro â'r mecanweithiau cysylltiedig (e.e. defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs), integreiddio â chynlluniau sicrwydd eraill) gefnogaeth eang, Fodd bynnag, holodd ymatebwyr sut y byddai heterogenedd y sector ffermio yng Nghymru yn cael ei adlewyrchu yn y mecanweithiau a ddewiswyd. Er enghraifft, cwestiynodd rhai ymatebwyr yr adolygiad blynyddol a'r defnydd o ddal a storio carbon fel procsi ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol. Teimlent na allai penodoldeb y mesur hwn o reidrwydd olygu arfer ecolegol da. Yn ogystal, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith bod risg y byddai'r cynllun yn gofyn i ffermwyr gwblhau'r hyn a welant fel 'casglu data gormodol' am ychydig (neu anhysbys ar hyn o bryd) o wobr.

O ran DPA, gofynnwyd am eglurhad pellach ynghylch sut y byddai'r rhain yn cael eu monitro, ac awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid gwneud i DPA mewn partneriaeth ag aelod unigol o'r cynllun i sicrhau eu bod yn adlewyrchu eu busnes yn y ffordd orau (a'r dosbarthiad tra ar y fferm). Amlygwyd hefyd yr angen i ddangos cymaroldeb rhwng cynlluniau, a chydnabu ymatebwyr y gallai hyn gyfyngu ar y gallu i deilwra DPA  ar gyfer busnesau unigol.

Cynigiodd rhai ymatebwyr y gellid cyflawni'r cymaroldeb hwn trwy gynnwys manylion neu ffurflenni o gynlluniau sicrwydd eraill megis Organic Farmers & Growers a LEAF. Gallai hyn hefyd helpu i leihau gwaith papur yn gyffredinol ar gyfer ffermwyr a lliniaru'r risgiau a grybwyllwyd eisoes sy'n gysylltiedig â chasglu data.

Roedd amrywiaeth o newidiadau awgrymedig i weinyddiaeth y cynllun a grybwyllwyd gan nifer fach yn unig o ymatebwyr. Crynhoir y rhain yn ffigur 5.45.




**Ffigur 5.4 Diagram corryn yn dangos y newidiadau a awgrymwyd yn ymwneud â phrosesau monitor ac adrodd y cynllun.**

## 5.4 Darparu Cefnogaeth Ariannol

Roedd rhywfaint o adborth ym Mhennod Pedwar y CFfC ar sut y byddai rhai agweddau ar y cynllun yn cael eu hariannu. Roedd yr adborth ar yr amod yma eto yn weddol gadarnhaol,

gyda chydnabyddiaeth mai un o egwyddorion y cynllun oedd gwneud busnesau amaethyddol (gan gynnwys y sector garddwriaethol) yn fwy cynaliadwy yn economaidd,

Roedd pryderon ac ymholiadau'n ymwneud â lefel y cymorth/cyfraddau talu a sut y byddai'r rhain yn cael eu gweinyddu (e.e. ôl-ddyledion yn erbyn blaenlwytho, defnyddio model 'talu yn ôl canlyniadau' i ganiatáu i ffermwyr arbrofi sut y maent yn cyflawni'r canlyniadau RhTG). O ran y pwynt olaf, roedd ymatebwyr yn pryderu y gallai'r costau ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â chamau gweithredu penodol, megis profi pridd a thechnoleg glyfar, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar lif arian busnes fferm atal rhai ffermwyr rhag ymuno.

Y diffyg manylion, ac a fyddai lefel y cyllid yn ddigonol i gefnogi'r camau gweithredu arfaethedig (e.e. cymorth i fridiau brodorol, cynnal a chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus), oedd y prif feysydd a oedd yn peri pryder o ran cyfraddau talu. Roedd ymatebwyr eisiau sicrwydd y byddai digon o arian ar gael ar gyfer camau gweithredu dewisol a chydweithredol. Amlygwyd ganddynt y byddai cyllid annigonol yn cyfyngu ar botensial y cynllun i gefnogi newid ystyrlon, o ran cyflawni a manteisio. Er enghraifft, gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o fanylion am y taliadau rheoli parhaus sy'n gysylltiedig â chamau gweithredu hirdymor (e.e. plannu coed), a fyddai taliadau ychwanegol i'r rheini oedd yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol o dan y cynllun.

## 5.5 Darpariaethau Cyngor a Hyfforddiant

Canmolwyd rôl barhaus Cyswllt Ffermio a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fel ffynonellau cyrsiau hyfforddi a chyngor technegol, a'r ymrwymiad i rannu gwybodaeth a chyfnewid gwybodaeth rhwng cymheiriaid yn eang. Fodd bynnag, holodd ymatebwyr pa mor dda y byddai cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i argaeledd y cymorth hwn, ac a fyddai gan y ddau sefydliad adnoddau digonol i sicrhau bod y nifer a'r ansawdd angenrheidiol o gynghorwyr â'r wybodaeth briodol i ddarparu cyngor addas. Roedd y pwynt olaf hwn yn cyfeirio'n benodol at y camau hynny a oedd yn gofyn am wybodaeth dechnegol fanwl (e.e. cyngor i ffermwyr tenant â chytundebau tymor byr).

Er mwyn helpu i liniaru unrhyw gyfyngiadau posibl ar allu technegol Cyswllt Ffermio, awgrymodd ymatebwyr y dylai Cyswllt Ffermio hwyluso gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth (cyrsiau hyfforddi mewn cydweithrediad â sefydliadau trydydd parti (e.e. Porfa am Oes (PfL), Rhwydwaith Ffermio Cyfeillgar i Natur (NFFN)). Teimlai'r ymatebwyr hyn y byddai cyswllt Ffermio yn elwa o'r adnoddau a'r cyngor y gallent ei ddarparu, ac y gallai'r sefydliadau hyn hefyd hyfforddi cynghorwyr Cyswllt Ffermio a llenwi unrhyw fylchau gwybodaeth posibl.

Tynnodd rhai ymatebwyr o'r sector ffermio organig sylw hefyd at feysydd penodol (e.e. arferion ffermio organig (yn barhaus ac yn ystod y cyfnod pontio, gweithredu camau cydweithredol) yr hoffent sicrhau bod cymorth cynghorol yn cael ei ddarparu ar eu cyfer.

Awgrymodd ymatebwyr a oedd yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg hefyd y dylid darparu'r cyngor hwn yn Gymraeg ac nid yn Saesneg yn unig.

# 6 ADBORTH AR BENNOD PUMP: PROSES Y CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

## 6.1 Crynodeb o’r Bennod

Mae’r bennod hon yn nodi prosesau gweinyddol y CFfC. Esboniodd yr hyn yr oedd angen i ffermwyr ei wneud i wneud cais am aelodaeth o’r cynllun, y gofynion cynhwysedd a phrosesau monitro’r cynllun. Roedd yr adran hon hefyd yn rhoi cipolwg ar fecanweithiau talu’r cynllun.

Roedd yr adborth cyffredinol ar broses y cynllun yn gadarnhaol. Roedd hyn yn cyfeirio'n benodol at y manylion am weinyddu’r cynllun a’r ffocws ar gefnogi ffermwyr i gydymffurfio yn hytrach na’u cosbi am beidio â chydymffurfio.

Roedd y pryderon a godwyd yn ymwneud yn bennaf â monitro’r cynllun, o ran rhannu data, cymorth (ariannol a thechnegol) i ffermwyr a gofynion cymhwysedd.

Roedd y newidiadau a awgrymwyd yn ymwneud yn bennaf â’r gofynion hyn gyda llawer o ymatebwyr yn awgrymu gostyngiad yn y gofyniad arwynebedd tir 3ha er mwyn galluogi busnesau garddwriaethol i gymryd rhan.

Roedd ceisiadau am eglurhad yn gyfyngedig, fodd bynnag gofynnodd rhai ymatebwyr am ddiffiniadau mwy manwl gywir ar gyfer termau (ymholiadau yn ymwneud â chymhwysedd ar gyfer y cynllun), gweithgaredd amaethyddol (eto yn ymwneud â chymhwysedd) a chynaliadwyedd cymdeithasol-economaidd.

Bydd y themâu hyn yn cael eu harchwilio’n fanylach isod.

## 6.2 Gweinyddu

Derbyniodd y cynigion gweinyddu cefnogaeth eang gan amrywiaeth o ymatebwyr, a thynnwyd sylw arbennig at gyflwyno apiau symudol.

O ystyried yr heriau sydd gan rai cymunedau gwledig gyda gallu cyfyngedig i fand eang, codwyd pryderon ynghylch y defnydd o wefan Taliadau Gwledig Cymru (RPW) fel y prif borth. Gallai’r ddibyniaeth ar dechnolegau digidol effeithio ar hygyrchedd i rai cyfranogwyr (e.e. y rhai â gallu a chapasiti TG cyfyngedig), ac roedd ymatebwyr eisiau sicrwydd bod yr egwyddor o fod yn hygyrch i bawb hefyd yn berthnasol i systemau gweinyddu’r cynllun. Mynegwyd pryderon ynghylch defnyddioldeb gwefan presennol RPW ac awgrymwyd y dylid gwella hyn cyn cyflwyno’r cynllun.

Codwyd pryderon gwrthgyferbyniol hefyd o ran lefel y rhannu data a’r mesurau diogelu cysylltiedig. Roedd rhai ymatebwyr eisiau i’r holl ddata a gasglwyd o dan y cynllun fod yn hawdd ei gyrchu, tra bod eraill yn poeni sut y gallai’r data hygyrch hwn fynd yn groes i’r GDPR. Roedd yr ymatebwyr hyn eisiau sicrwydd y byddai data personol yn gyfrinachol ac yn ddiogel.

Er mwyn galluogi ffermwyr i gael gwell dealltwriaeth o’r cynllun wrth iddo ddatblygu ac ar y cam gweithredu, tynnodd nifer fach o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd eglurder. Roedd hyn yn ymwneud â sut y diffiniwyd termau allweddol yn y cynllun (e.e. ffermwr, gweithgaredd amaethyddol, cynaliadwyedd), sut roedd y rhain yn cysylltu â chymhwysedd, y broses ar

gyfer dethol a blaenoriaethu camau gweithredu, a'r cysylltiadau rhwng rheolau'r cynllun a chydymffurfiaeth reoleiddiol.

## 6.3 Monitro, Adrodd a Gwerthuso

Yn unol â'r adborth a gyflwynwyd yn Adran 5.3, roedd ymatebwyr eto'n gyffredinol gefnogol i'r cynigion monitro a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, gan gyfeirio'n benodol at gysyniadau adolygiad cynaliadwyedd a'r potensial ar gyfer hunan-fonitro. Fodd bynnag, holodd ymatebwyr am ansawdd y data y byddai'r adolygiad cynaliadwyedd yn seiliedig arno. Er enghraifft, tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr angen i ddiweddaru'r data a'r mapiau cynefinoedd â blaenoriaeth. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid ymgorffori hyn yn y broses arolygu a monitro i wneud hyn. Roedd yr ymatebwyr hefyd am gael rhagor o fanylion am yr hyn a fyddai'n ymwneud â'r adrodd a'r gwerthuso (e.e. y posibilrwydd o gynnwys cyfalaf cymdeithasol, asesiadau allyriadau porthiant a gwrtaith) a chadernid y prosesau arolygu ac adolygu (e.e. i liniaru risgiau ariannol dwbl dangos cyflawniad gwirioneddol yn erbyn amcanion).

Codwyd y gwaith o leihau'r baich gweinyddol ar gyfranogwyr y cynllun unwaith eto gan amrywiaeth o ymatebwyr, gydag integreiddio a'r gweithdrefnau adrodd sy'n gysylltiedig â chynlluniau eraill (e.e. Ffermwyr a Thyfwyr Organig, LEAF) yncael ei ailadrodd fel ffordd o leihau maint y gwaith papur a dyletswyddau gweinyddol sydd eu hangen.

Gan gyfeirio'n benodol at HTC, roedd ymatebwyr yr oedd HTC yn gylch gwaith craidd iddynt, eisiau sicrwydd bod mynediad cyhoeddus a Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu mapio fel rhan o'r broses arolygu a bod diweddariadau'n cael eu rhannu gyda'r awdurdod lleol.

Yn yr adborth ar gyfer y bennod hon, codwyd y materion sy'n gysylltiedig â ffermwyr trawsffiniol hefyd. Gofynnodd nifer fach o ymatebwyr am fwy o fanylion ynghylch a fyddai gofynion y cynllun (e.e. 105 o orchudd coed) yn berthnasol ad draws y daliad cyfan, neu dim ond i'r rhannau hynny o'r fferm sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

## 6.4 Cosbau

Trafodwyd sut y câi cosbau eu defnyddio hefyd mewn adborth yn ymwneud â Phennod Chwech o gynnig y CFfC. Roedd ymatebwyr eisiau sicrwydd y byddai'r rhain yn ddigon cadarn i orfodi safonau'r cynllun ond y byddent yn cael eu dehongli'n synhwyrol ac yn deg (e.e. hyblygrwydd o ran force majeure, defnyddio rhybuddion yn hytrach na dirwy ar unwaith). Teimlai'r ymatebwyr y byddai hyn yn helpu i liniaru pryder ynghylch cosbau drwy ddarparu proses sy'n seiliedig ar gymorth yn hytrach na chosb.

Os bernir bod cosbau'n briodol, gwnaeth ymatebwyr nifer o awgrymiadau ynghylch sut y gellid eu gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys atal cyllid pellach nes bod camau unioni wedi'u cymryd ac y dylai cosbau fod yn uwch na'r gost i gydymffurfio oherwydd fel arall gellid ystyried y cosbau fel cost busnes arferol yn hytrach na chymhelliant i newid.

## 6.5 Mecanweithiau Talu

Roedd adborth ar gyfer y bennod hon yn codi cwestiynau tebyg am effaith amseriad a lefel y cyfraddau talu ar lif arian parod a'r nifer yn manteisio arno (gan gyfeirio'n benodol at osod

cap cyflog) â'r rhai a godwyd yn y flwyddyn flaenorol. Archwiliwyd y rhain yn Adran 5.4 yr adroddiad hwn.

Tynnodd nifer fach o ymatebwyr sylw at yr angen i ystyried darparu adnoddau ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â chefnogi'r gwaith parhaus o reoli rhai camau gweithredu (e.e. Awdurdodau Lleol a Hawliau Tramwy Cyhoeddus).

## 6.6 Darparu Cyngor a Hyfforddiant

Yn unol â'r adborth a nodir yn Adran 5.5 o'r adroddiad hwn, ystyriwyd bod mewnbwn Cyswllt Ffermio i'r cynllun yn gadarnhaol, cyn belled â bod cyllid digonol wedi'i ddarparu i sicrhau bod y cynghorwyr eu hunain yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol i sicrhau eu bod yn gallu cefnogi ffermwyr yn briodol. Codwyd hefyd y dylid darparu cymorth ar gael mynediad at Fasnachu Allyriadau (ETS) y DU gan y gallai fod yn ffynhonnell incwm ychwanegol i rai cyfranogwyr.

## 6.7 Contractau a Chymhwysedd

Awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylai hyd gontractau fod yn unigol i fod cyfranogwr cynllun. Er enghraifft, gallai cytundebau hirach fod yn briodol i rai tirfeddianwyr a helpu i hwyluso rhai elfennau o'r cynllun (e.e. cynnal a chadw parhaus ar goed a blannwyd i gyflawni gofyniad o 10%), fodd bynnag byddai cytundebau pum mlynedd yn rhy hir i ffermwyr tenant ar gontractau tymor byr.

Yn ogystal, awgrymodd llawer o ymatebwyr newidiadau yn ymwneud â meini prawf cynhwysedd y cynllun, gan awgrymu y dylid lleihau'r cwmpas 3ha i 1ha, neu y dylai cynhwysedd fod yn seiliedig yn lle hynny ar drosiant neu ffactor arall. Dywedwyd bod y cynigion presennol yn eithrio llawer o fusnesau garddwriaeth lwyddiannus rhag cael mynediad i'r cynllun. Yn gyffredinol, y persbectif cyffredinol oedd y dylid gwneud y gofynion cymhwyster a chontract yn hyblyg er mwyn galluogi cymaint o ffermwyr â phosibl i gymryd rhan.

## 6.8 Syniadau Cyffredinol

Awgrymwyd ystod o syniadau, er mwi ychydig iawn o gefnogaeth a gafodd pob un. Crynhoir y rhain yn Ffigur 6.1.




**Ffigur 6.1 Diagram corryn yn dangos newidiadau a awgrymwyd mewn perthynas â Phennod Pump y cynnig CFfC.**

# 7 ADBORTH AR BENNOD CHWECH: Y CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY: CYNLLUN PONTIO

## 7.1 Crynodeb o'r bennod

Roedd y bennod hon yn nodi'r cynllun pontio ar gyfer y CFfC. Roedd hyn yn cynnwys manylion am y cyfnod paratoi a threialu a'r cyfnod pontio a beth fyddai'n digwydd ym mhob cyfnod. Roedd manylion hefyd yn ymwneud â'r cynlluniau peilot a'r treialon a amlinellwyd fel rhan o'r cyfnod paratoi a'r cyfnod peilot.

Rhoddodd llawer llai o ymatebwyr adborth ar y bennod hon. Gwnaed sylwadau cadarnhaol ynghylch y cam paratoi a threialu o 2022-24, a chynigiodd llawer o ymatebwyr eu cymorth yn y cyfnod peilot.

Ychydig iawn o bryderon a godwyd mewn ymateb i'r bennod hon. Fodd bynnag, roedd y rhai a godwyd yn ymwneud â chyflwyno'r cynllun a sicrhau bod digon o dreialon a chynlluniau peilot yn cael eu cynnal cyn y cyfnod pontio. Gofynnodd ymatebwyr eraill i'r cyfnod pontio fod yn fyrrach.

O ran eglurhad, roedd llawer o ymatebwyr yn chwilfrydig ynghylch sut y byddai ffermwyr yn cael eu cymell i ymuno â'r cynllun a pha gymorth byddai ar gael i siaradwyr Cymraeg.

Archwilir y themâu hyn yn fanylach isod.

## 7.2 Cyfnod Paratoi a Pheilot

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a roddodd adborth ar y bennod hon yn gadarnhaol ar y cyfan am y cynllun pontio, yn enwedig y cynigion cyfnod paratoi a pheilot. Teimlai'r ymatebwyr fod y bennod hon yn cynrychioli parodrwydd i addasu'r cynllun i sicrhau bod y cynllun mor effeithiol 6â phosibl. Cynigiodd llawer o ymatebwyr hefyd i gynorthwyo gyda'r cyfnod peilot.

Er bod yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan, roedd nifer fach o ymatebwyr eisiau sicrwydd bod treialon digonol yn cael eu cwblhau i sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflwyno'n ddidrafferth.

## 7.3 Cyfnod Pontio

Croesawyd y cyfnos pontio hefyd fel y dywedodd ymatebwyr y byddai'n rhoi amser i ffermwyr addasu eu modelau busnes a sicrhau cydymffurfiaeth.

Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebwyr a roddodd adborth ar Bennod Chwech yn pryderu am hyd y cyfnodau pontio (2025 – 29). Teimlai ystod o ymatebwyr o wahanol sectorau, gan gynnwys sefydliadau ffermio a SAA, fod yr amserlen hon yn rhy hir ac nad oedd yn adlewyrchu difrifoldeb yr argyfwng hinsawdd.

Fel y cyfryw, y prif newid a awgrymwyd oedd y dylid cwtogi ar hyd y cyfnod pontio, gydag ystod eang o ymatebwyr yn awgrymu hyn. Ni awgrymodd unrhyw ymatebwyr y dylai fod yn hirach. Awgrymodd un ymatebydd y dylid rhoi blaenoriaeth i gyflwyno'r cynllun mewn parciau cenedlaethol, er na roddodd y rhesymau dros yr awgrym hwn.

## 7.4 Meysydd i’w Hegluro

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad ynghylch Pennod Chwech. Roedd rhai ymatebwyr eisiau mwy o fanylion am sut roedd y cynllun yn cynnig cymell ffermwyr i ymuno. Gofynnodd sefydliad sy’n ymwneud â gwarchod y Gymraeg hefyd am fwy o fanylion ynglŷn â sut y byddai siaradwyr Cymraeg yn cael eu cefnogi’n ymarferol gan y cynllun.

# 8 ADBORTH CYFFREDINOL AR GYNNIG CFFC

Cynigiwyd y cyfle i ymatebwyr roi sylwadau cyffredinol ar y cynllun. Canolbwyntiodd yr ymatebwyr yn bennaf ar feysydd y teimlent y dylid eu hystyried ar gyfer cynllun terfynol y CFfC. Y prif awgrym oedd y dylai'r CFfC osgoi gwahardd pobl, gan gyfeirio'n benodol at dyddynwyr a busnesau garddwriaeth. Roedd adborth arall yn ymwneud â phryderon yn ymwneud â: y baich ychwanegol ar ffremwyr a osodwyd gan y cynllun a'r effaith ar iechyd meddwl ffermwyr, a oedd lefel y cyllid ar gyfer y CFfC yn ddigonol i sicrhau cyflenwi yn erbyn amcanion; yr angen i'r cynllun gael ei integreiddio â chynlluniau eraill (e.e. organig) a pholisïau (e.e. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) yn y sector; ac i sicrhau cwmpas a mesuriadau cynhwysfawr sy'n caniatáu ar gyfer cymharu fel y gellir cymharu DPA yn hawdd â rhai cynlluniau cenedlaethol mewn gwledydd eraill. Mae gweddill yr adborth a roddodd ymatebwyr mewn ymateb i'r adran hon wedi'i grynhoi yn Ffigur 8.1.




**Ffigur 8.1 Diagram corryn yn dangos y sylwadau cyffredinol yn berthnasol i gynnig cyfan y CFfC.**

# 9 CASGLIAD

Roedd yr adborth a ddarparwyd yn eang iawn, gan adlewyrchu'r amrywiaeth o wahanol randdeiliaid a gymerodd ran. Oherwydd hyn, roedd gan randdeiliaid yn aml safbwyntiau ac adborth croes ynghylch y cynllun. Roedd y mater hwn yn fwyaf cyffredin yn ymwneud â 10% o orchudd coed a 10% o dir fferm i'w reoli fel cynefin, gyda chymaint o ymatebwyr yn awgrymu y dylid cyfuno neu leihau'r rhain â'r rhai a deimlai y dylid cadw'r rhain ar wahân. Fodd bynnag, un agwedd yr oedd consensws cyffredinol bron yn ei chylch, oedd bod angen eglurhad pellach ar y cynllun ar themâu allweddol: cwmpas, cymhwyster, cymorth (gweinyddol, technegol ac ariannol), strwythur (haenau, cyllid a monitro) a chamau gweithredu arfaethedig (gan gynnwys risg a chyfaddawdau).

Roedd adborth rhanddeiliaid yn ymwneud ag amcanion y cynllun yn gadarnhaol ar y cyfan, fodd bynnag roedd ymatebwyr yn amau aliniad amcanion RhTG â deddfwriaeth gyfredol, a mynegwyd pryderon ynghylch yr amserlen ar gyfer gweithredu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Ar y cyfan, cytunodd yr ymatebwyr y dylid gwneud y cynllun yn fwy hyblyg er mwyn sicrhau nad oedd neb yn cael ei eithrio rhag cymryd rhan (e.e. gostwng y trothwy 3ha a darparu telerau cytundeb byrrach i alluogi tenantiaid i gymryd rhan), Un o'r meysydd eraill lle'r oedd consensws ymhlith rhanddeiliaid oedd bod y cyfnod pontio yn cael ei fyrhau gan nad yw'r hyd bresennol yn adlewyrchu'r angen dybryd i wella cynaliadwyedd arferion ffermio a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Roedd lefel y gefnogaeth, boed yn ymwneud â chyllid, cynghori neu â gweinyddiaeth yn cael ei chodi'n aml fel mater o bryder ac angen eglurhad pellach. Croesawyd integreiddio gydag olynydd Cyswllt Ffermio, fodd bynnag, holwyd a fyddent yn cael y lefel ddigonol o adnoddau a bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i gefnogi ffermwyr gyda'r cynllun. Roedd cyllid yn gyffredinol yn faes a oedd yn peri pryder mawr i randdeiliaid, gyda chyfradd y taliad, y mecanwaith talu a chyllid ar gyfer y gwahanol haenau i gyd yn cael cryn dipyn o sylw. Roedd gweinyddu'r cynllun, gan gynnwys y prosesau monitro a chydymffurfio, hefyd yn faes lle'r oedd ymatebwyr eisiau sicrwydd y byddai digon o gefnogaeth i randdeiliaid ac y byddai'r prosesau monitro yn gadarn ac yn drylwyr. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd y dylid derbyn cynlluniau a dogfennau o gynlluniau sicrwydd eraill ar gyfer y CFfC gan y bydd hyn yn lleihau biwrocratiaeth ychwanegol ddiangen i ffermwyr. Cafodd y cosbau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cynllun sylw hefyd, gan fod ymatebwyr eisiau sicrhau y byddent yn cael eu cymhwyso'n deg fel nad yw mân achosion o dorri rheolau neu fethiant i gwblhau camau gweithredu o ganlyniad i gamau allanol neu anrhagweladwy yn arwain at gosbau annheg.

Roedd sylwadau'n ymwneud â'r strwythur a'r fframwaith, er eu bod yn gefnogol i raddau helaeth i'r dull cydweithredol a ddefnyddiwyd, yn awgrymu nifer o newidiadau y gellid eu gwneud naill ai i haenau'r cynllun neu gamau a awgrymwyd i'w hychwanegu neu eu symud i haen benodol.

Mae'r camau gweithredu arfaethedig hefyd yn gofyn am lawer iawn o ofal a sylw. Rhoddwyd llawer iawn o sylw i gamau gweithredu yn ymwneud â mynediad cyhoeddus a Hawliau Tramwy Cyhoeddus, coetiroedd a chynefinoedd ac roedd barn yr ymatebwyr yn aml yn gwrthdaro â'r rhain. Er bod hyn yn golygu ei bod yn anodd crynhoi ymatebion i neges gydlynol, mae'n dangos bod angen ystyried er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu arfaethedig yn ystyried barn yr holl randdeiliaid yn y cam nesaf. Yn ogystal, mae sylwadau am gyfaddawdu yn golygu y byddai mynd i'r afael ag unrhyw ganlyniadau anfwriadol o'r

camau gweithredu arfaethedig yn ddefnyddiol, ynghyd â manylion ychwanegol yn nodi mesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer canlyniadau o’r fath.

# ATODIAD 1: RHESTR O SEFYDLIADAU A RODDODD ADBORTH

## Rhestr o'r holl sefydliadau a roddodd adborth ar y cynnig Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

1. Action Plan for Pollinators
2. Afonydd Cymru
3. AIC Cymru
4. Amphibian and Reptile Conservation Trust
5. Arfon and Dwyfor Local Access Forum
6. Black Mountains Graziers Association East
7. Brecon Beacons National Park Local Access Forum
8. Brecon Beacons National Park Local Access Forum
9. British Cattle Veterinary Association
10. British Horse Society
11. Bumblebee Conservation Trust
12. Celtic Rainforests Wales Partnership
13. Ceredigion Local Access Forum
14. Chartered Institute of Ecology and Environmental Management
15. Coed Cymru
16. Confederation of Forest Industries
17. Country Land and Business Association Cymru
18. Cycling UK
19. Dwr Cymru Welsh Water
20. Economic and Social Research Council's Festival of Social Science
21. Farmers Unions of Wales
22. Farming Community Network Cymru
23. Farming Wildlife Advisory Group Cymru
24. Grwp resistance
25. GWCT
26. Gwent Levels SMS Farmers
27. Institute of Public Rights of Way
28. Landsker Ecology

29. Lantra Wales
30. LEAF
31. Monmouthshire County Council
32. Monmouthshire Local Access Forum
33. National Parks Wales
34. National Sheep Association
35. National Trust Cymru
36. Nature Friendly Farming Network Cymru
37. NFU Cymru
38. NRW
39. Open Spaces Society
40. Organic Growers Alliance
41. Pasture for Life
42. Pembrokeshire Coastal Forum
43. People for the Ethical Treatment of Animals (PETA) Foundation
44. Plantlife
45. Powys County Council
46. Powys Local Access Forum
47. Powys Ramblers
48. Pembrokeshire Local Access Forum
49. Radnorshire Wildlife Trust
50. Ramblers Cymru
51. Rare Breeds Survival Trust
52. Rewilding Britain
53. RSPB Cymru
54. Size of Wales
55. Social Farms and Gardens
56. Soil Association
57. South Wales Fire and Rescue
58. South Wales Outdoor Activity Providers Group on Behalf of Wales Adventure Tourism Organisation
59. Tenant Farmers Association
60. The Landworkers' Alliance

61. Tyfu Cymru - Lantra
62. Wales Animal Health and Welfare Group
63. Wales Environment Link
64. Wales Resilient Ecological Network
65. Wales Young Farmers Club
66. Welsh Lamb and Beef Producers
67. Welsh Language Commissioner
68. Welsh Mountain Sheep Society
69. Welsh Organic Forum
70. Wildlife Trust Wales
71. Woodland trust
72. WWF Cymru